**ATODIAD 'C'**

# ADRODDIAD Y CYNGOR

Blwyddyn arall wedi hedfan a'r Cyngor wedi wynebu amser ddigon anodd gyda'r arwerthiannau yn wyneb yr her gyda'r Tafod Glas. Gwelwyd sawl cyfarfod swyddogion a chyfarfod o'r Cyngor i geisio gwneud y gorau i aelodau'r Gymdeithas gael gwerthu eu stoc. Gan fod gwahaniaeth yn y deddfwriaethau rhwng y rhanbarthau yn y Deyrnas Unedig gwnaethpwyd i ffwrdd a'r fformiwla faint o ddefaid a ellid eu cyflwyno ar gyfer y nifer o hyrddod yn yr arwerthiannau, ond daliwyd i'r uchafswm sef chwech hwrdd ar gyfer pob arwerthiant – gwnaed hyn ar gyfer arwerthiant Y Trallwng a Chaerliwelydd. Eto er ceisio cynorthwyo aelodau symudwyd dyddiad arwerthiant Y Trallwng o ddydd Sadwrn i'r dydd Mawrth canlynol.

Da i'w cael adrodd i'r arwerthiannau fod yn llwyddiannus ac fod y mwyafrif o'r gwerthwyr yn hapus gyda'r canlyniadau. a gwelwyd prisiau da yn cael eu derbyn ymhob categori ac wrth gwrs mae hyn yn galonogol gan ei fod yn dod ag incwm i'r Gymdeithas. Diolch i'r rhai ohonoch sydd yn cefnogi'r arwerthiannau a thrwy wneud hynny yn dod a chomisiwn i'r Gymdeithas – defnyddir yr arian yma i hyrwyddo'r brid er budd oll o aelodau'r Gymdeithas. Hoffem annog mwy o fridwyr i werthu eu defaid drwy'r arwerthiannau er sichrau fod y coffrau yn caniatau i hyrwyddo'r brid yn eang.

Eleni eto bu'r Tîm Archwilio yn brysur wrth eu gwaith yn teithio ledled y wlad i farchnadoedd yn y Deyrnas Unedig a De Iwereddon, arwahan i Ogledd Iwerddon lle cynhaliwyd yr archwiliadau, drwy ganiatad, ar Fferm y Kennedy's ac mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar iawn iddynt am hyn. Yn ôl y Tîm roedd nifer y meheryn gyflwynwyd i'w harchwilio yn galonogol. Fel arfer hoffem ddatgan ein diolchgarwch i'r Tîm Archwilio am eu gwaith diflino. Diolch hefyd i'r aelodau hynny ddaeth a'u hanifaeiliad ymlaen i'w harchwilio – mae hyn yn hanfodol bwysig er cadw nodweddion y brid ac anogwn fwy o aelodau i wneud hyn.

Newyddion calonogol yw adrodd for y pwyllgor o'r enw 'Next Generation Gathering' yn mynd o nerth i nerth a da i'w gweld yr ifanc a diddordeb yn y brid. Mae hyn yn hanfodol bwysig wrth gwrs os am weld y brid yn symud ymlaen i'r oes a ddel.

Hefyd mae'n dyled yn fawr i aelodau'r ddau is-bwyllgor sef Is-bwyllgor Datblygu'r Brid a'r Is-bwyllgor Hyrwyddo'r brid. Mae gwaith y ddau is-bwyllgor yma yn hanfodol bwysig gan eu bod yn trafod sut i symud ymlaen gyda'r brid ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Gofynnir i oll o'r aelodau ystyried yn ofalus gais y Cyngor sef i gyflwyno gwybodaeth am eu e-bost cyfredol gan fod y Gymdeithas yn anelu at fynd yn Gymdeithas ddi-bapur yn y dyfodol agos. Bydd lleihau costau positio o gymorth i'r Gymdeithas wario'r arian hynny yn hyrwyddo'r brid i'r dyfodol fel y gallwn sicrhau fod y brid Lleyn yn cael ei gydnabod a bydd gofyn amdano.
Wrth gwrs, os nad oes gennych e-bost ac yn methu cael mynediad at un drwy deulu neu ffrindiau, bydd y Gymdeithas yn anfon copi caled i chwi drwy'r post – gadewch i ni wybod os yr ydych eisiau i ni wneud hynny.

Nodyn byr i'ch atgoffa ynglyn â'r drefn pleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol – rhaid eich bod wedi talu eich tâl aelodaeth yn llawn cyn y gellwch benodi dirprwy (yn aelod o'r Gymdeithas a'i peidio) i fynychu'r cyfarfod ar eich rhan ac i siarad a phleidleisio felly. Rhaid i'r penodiad yma gael ei arwyddo gennych chwi a'i gyflwyno i un o swyddogion y Gymdeithas cyn y gall fod yn weithredol. Cofiwch hefyd y bydd yn rhaid i'r person a benodir gennych gyflwyno'r apwyntiad i un o'r Swyddogion **cyn dechrau'r Cyfarfod Blynyddol.** Nodir hefyd na all unrhyw berson weithredu fel dirpwy dros **fwy nag un aelod.**